# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Carwyn Jones, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Shaun Redmond |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Proffesiwn (CE) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Gwasanaeth (Tai, Strategaeth Gomisiynu a Pholisi (ELl) (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Tai Gwag (GO) (ar gyfer eitem 5)<br>Arweinydd Prosiect (Adnoddau Dynol a’r Gyflogres) (ATR)<br>Dirprwy Reolwr Busnes (Gwasanaethau Oedolion) (EJE) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard O. Jones, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol), Prif Weithredwr, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Mr Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 10 EBRILL, 2017**

Cyflwynwyd - cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod -

DRAFT

- 10 Ebrill, 2017 a gafodd eu derbyn a'u nodi fel rhai a oedd yn berthnasol i'r Cyngor blaenorol
- 31 Mai, 2017 a gafodd eu derbyn a'u cymeradwyo

**3 MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2016/17**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - Adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar ddiwedd Chwarter 4 2016/17 mewn perthynas â Rheoli Perfformiad, Rheoli Pobl, Rheolaeth Ariannol a Gwasanaeth Cwsmer.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol bod y cerdyn sgorio fel yr ymddengys yn Atodiad A yn portreadu darlun cymysg ar y cyfan ar ddiwedd 2016/17. Er bod y mwyafrif helaeth o ddangosyddion wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ar gyfer y flwyddyn, roedd meysydd nad oedd eu perfformiad cystal ac yn achos pedwar dangosydd, mae perfformiad yn adlewyrchu dirywiad blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae dau o'r dangosyddion, y naill yn y Gwasanaethau Oedolion a'r llall yn y Gwasanaethau Plant yn ymddangos yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targedau blynyddol ar gyfer y flwyddyn. Manylir ar y rhain ym mharagraffau 2.1.3 a 2.1.4 o'r adroddiad, ynghyd ag esboniad am y tanberfformiad ac amlinelliad o'r camau gwella arfaethedig. Er bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn Wyrdd neu'n Felyn, nid yw hyn yn golygu y byddai sefyllfa'r Awdurdod ar sail genedlaethol yn gwella o ganlyniad. Bydd sefyllfa'r Awdurdod o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru yn hysbys unwaith y bydd y data cenedlaethol ar gyfer 2016/17 wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

O ran Rheoli Pobl, roedd cyfraddau absenoldeb salwch yr Awdurdod ar ddiwedd 2016/17 wedi bodloni'r targed corfforaethol o 9.78 diwrnod o salwch fesul aelod o staff Amser Llawn Cyfatebol (FTE) yn erbyn y targed o 10 niwrnod salwch ac mae'n Wyrdd ar y cerdyn sgorio. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â pherfformiad 2015/16 pryd cofnodwyd 11.68 diwrnod o salwch fesul FTE ac mae'n cynrychioli cyfanswm o 4,737 yn llai o ddiwrnodau o salwch nag yn 2015/16. Er bod rhai problemau'n parhau gydag absenoldeb oherwydd salwch yn y Gwasanaethau Plant ac yn y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, mae'r cyfraddau absenoldeb salwch ar gyfer 2016/17 yn y gwasanaethau hynny yn dal i adlewyrchu darlun sy'n gwella. Mae adroddiad Archwilio Cymru ar reoli absenoldeb o fewn y Cyngor yn gadarnhaol ei naws a daw i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn ei drefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli presenoldeb, ar ôl rhoddi sylw iddynt fel mater o flaenoriaeth. Ymhellach, daw'r adroddiad i'r casgliad bod y Cyngor yn awr yn rhagweithiol yn dal ysgolion i gyfrif am reoli presenoldeb. Mae'r adroddiad yn gwneud dau gynnig ar gyfer gwelliant o ran y modd y mae'r Cyngor yn cefnogi ysgolion gyda'u trefniadau rheoli presenoldeb.

Mewn perthynas â Gwasanaethau Cwsmer, mae canran yr ymatebion a wnaed o fewn yr amserlen o ran cwynion a cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi gwella o gymharu â pherfformiad 2015/16. Mae canfyddiadau'r ymarfer Siopwr Cudd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cadarnhau bod safon gofal cwsmer yn Ynys Môn wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf yn 2015/16, ond serch hynny, mae'r adroddiad ar yr ymarfer yn argymell bod lle i wella ymhellach fel yr amlinellir ym mharagraff 2.3.8 yr adroddiad.

Cafwyd adroddiad manwl gan Mr Gwilym Bury, Swyddfa Archwilio Cymru, ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli presenoldeb. Canfu'r adolygiad fod y trefniadau corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â rheoli salwch wedi gwella'n sylweddol drwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb mwy cadarn. Erbyn hyn, byddai ei sefyllfa gymharol yn genedlaethol yn uwch na'r cyfartaledd; er mwyn cael ei ystyried fel awdurdod sy'n perfformio'n dda byddai angen iddo gyrraedd targed o 8 diwrnod o salwch fesul FTE; i gael ei ystyried fel

awdurdod sy'n perfformio'n rhagorol byddai angen iddo gyrraedd targed o 6.6 diwrnod o salwch fesul FTE.  Fodd bynnag, y farn archwilio allanol yw nad oes angen i'r Cyngor wneud mwy ar hyn o bryd o ran ei staff yn gyffredinol ac eithrio parhau i weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae wedi eu datblygu a'u rhoi ar waith, sef yr hyn y byddai disgwyl i awdurdod da ei wneud. O wneud hyn, dylai'r cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ddod i lawr yn raddol yn agosach at yr 8 diwrnod o salwch fesul FTE. O ran ysgolion, er mai cyfrifoldeb corff llywodraethol yr ysgolion yw goruchwylio trefniadau rheoli presenoldeb ar gyfer staff mewn ysgolion, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i hyrwyddo safonau uchel mewn ysgolion ac mae rheoli adnoddau ac absenoldeb staff yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni safonau uchel. Wrth hyrwyddo safonau uchel, dylai'r Cyngor fonitro, herio a chefnogi ei ysgolion. Er bod y mwyafrif o ysgolion yr Ynys â chyfraddau isel iawn o absenoldebau staff, mae gan leiafrif o ysgolion gyfraddau absenoldeb sy'n gyson yn uchel iawn ymysg staff dysgu a staff nad ydynt yn dysgu ac mae hynny'n cael effaith ar safonau addysgol. Mae angen cael yr un ffocws a thrafodaeth ar bresenoldeb staff yn yr ysgol ag ar  bresenoldeb disgyblion gan fod addysg yn bartneriaeth rhwng disgyblion, y rhieni a'r ysgol. Mae'r adroddiad yn cynnig mesurau i wella'r sefyllfa ymhellach gan gynnwys gosod patrwm o adroddiadau chwarterol rheolaidd ar berfformiad presenoldeb yn yr ysgolion ar gyfer eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu bod y Gwasanaeth Addysg wedi bod yn canolbwyntio am fisoedd lawer ar fynd i'r afael â rheoli presenoldeb mewn ysgolion a bod gwelliant sylweddol wedi ei wneud mewn cyfnod byr o amser. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu sianelu i gynnal trafodaethau gyda phob ysgol yn y sectorau cynradd ac uwchradd gyda rhai ysgolion yn cael eu targedu'n benodol ac mae'r ymdrechion hyn wedi arwain at y gwelliannau a welwyd. Mae tua 2,263 o ddiwrnodau wedi cael eu hennill a £ 250k wedi cael ei arbed gan y Cyngor yn y cyfnod hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad mewnol a'r adroddiad archwilio allanol ynghylch perfformiad y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn a dygwyd sylw at y materion canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y gwelliant sylweddol o ran cyfraddau absenoldeb salwch yn y Cyngor ar gyfer 2016/17 fel y tystiwyd i hynny yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yn cydnabod y gwaith a wnaed a'r ymrwymiad ar lefel gorfforaethol a gwasanaethau a oedd wedi cyfrannu at gryfhau'r prosesau i reoli presenoldeb ar draws y Cyngor yn well.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad am yr effaith - os o gwbl, a gafodd cyflwyno trefniadau gweithio'n gallach ar gyfraddau presenoldeb yn y Cyngor yn enwedig o ran gwella boddhad y staff a'u helpu sicrhau gwell cydbwysedd rhwng gwaith / bywyd drwy fesurau megis gweithio hyblyg a gweithio o gartref, rhannu desgiau ac ati. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad nad oedd unrhyw adolygiad wedi cael ei gynnal o unrhyw gydberthynas bosibl rhwng y trefniadau gweithio'n gallach a'r ffigyrau presenoldeb gwell. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau a welwyd ac yr adroddwyd arnynt wedi digwydd oherwydd y prosesau a roddwyd ar waith drwy'r Prif Weithredwr a'r Uned Adnoddau Dynol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach o ran y nifer y staff sydd wedi manteisio ar fentrau gweithio'n gallach a'u hadborth yn hynny o beth. Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn bod staff, lle mae hynny'n fanteisiol i'w gwaith, wedi  manteisio ar y dulliau gweithio amgen a hyblyg y mae gweithio'n gallach yn eu hyrwyddo; mae'r sefyllfa yn un amrywiol gyda nifer o staff yn dal i ddewis dod i'r gweithle a gweithio gartref os oes ganddynt ddarnau penodol o waith. Soniodd y Penaethiaid Gwasanaeth - Dysgu,

DRAFT

Gwasanaethau Oedolion a Phriffyrdd, Gwastraff ac Eiddo am y nifer sydd wedi manteisio ar drefniadau gweithio'n gallach yn eu gwasanaethau eu hunain.

- Mewn perthynas â Rheolaeth Ariannol, nododd y Pwyllgor, er bod y duedd at i lawr, bod gwariant ar staff asiantaeth yn parhau i fod yn faes sydd wedi ei gategoreiddio'n Goch. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, tra bod y gwahaniaeth rhwng staff asiantaeth ac ymgynghorwyr yn parhau i fod yn broblem o ran priodoli costau, mae'r gwariant ar staff asiantaeth o fewn y Cyngor ac yn enwedig o fewn y Gwasanaeth Cyllid wedi gostwng yn sylweddol. Lle mae angen am staff asiantaeth, e.e. yn y Gwasanaethau Plant, mae'r broses ar gyfer cyflogi staff asiantaeth yn cael ei llofnodi gan y Prif Weithredwr.

**Wedi nodi'r darlun canologol yn gyffredinol yn y Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer Chwarter 4 2016 / 17, fel y cafodd ei bortreadu yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 ac wedi bodloni ei hun bod y meysydd sy'n tanberfformio wedi cael eu nodi a'u blaenoriaethu a'u targedu, PENDERFYNODD y Pwyllgor -**

- **Nodi a chefnogi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol fel y cânt eu crynhoi ym mharagraffau 1.3.1. i 1.3.4 yr adroddiad.**
- **Nodi a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellwyd mewn perthynas â'r meysydd a nodir yn y paragraffau uchod.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad yn darparu adolygiad o ba mor dda y darparwyd gwasanaethau cymdeithasol ar Ynys Môn yn 2016/17 gan gynnwys llwyddiannau allweddol yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn ogystal â'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y flwyddyn i ddod.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod 2016/17 wedi bod yn flwyddyn heriol o ran y cyd-destun y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu y tu mewn iddo. Cafodd y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu ei drawsnewid i gwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWB). Yn ogystal, mae'r cyni ariannol a'r pwysau parhaol ar gyllidebau, ynghyd ag ymwybyddiaeth o'r tueddiadau a'r gofynion tebygol yn y dyfodol yn golygu bod angen ailfeddwl yn radical am y modd y darperir gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant, dywedodd y Swyddog fod llawer o'r gwaith yn cael ei yrru gan yr argymhellion a wnaed yn adroddiad AGGCC yn dilyn ei harolygiad o'r Gwasanaethau Plant. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu gweithredu drwy Gynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant a bydd yn cael ei fonitro gan y Panel Plant a fydd yn adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Yn dilyn adroddiad AGGCC, bu'r ffocws ar ddatblygu strategaeth gweithlu sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff; gwella goruchwyliaeth i weithwyr cymdeithasol; gwella ansawdd ymarfer mewn perthynas ag amddiffyn plant; cryfhau partneriaethau a chydweithio o fewn y Cyngor ac yn allanol gydag

DRAFT

asiantaethau partner; cynnal adolygiad o leoliadau preswyl a cheisio lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.

Mae’r Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cyfnod o sefydlogrwydd sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i ganolbwyntio ar y dyfodol ac i atgyfnerthu cynnydd mewn perthynas â datblygu ac adeiladu Hafan Cefni; ehangu’r capasiti i ofalu am bobl sydd â dementia ar yr Ynys; ail-dendro’r contract ar gyfer gofal cartref; datblygu mentrau atal megis y Tîm Gofal Ychwanegol Môn a'r Gwasanaeth Tylluanod Nos; cynyddu’r niferoedd sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol a chryfhau'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad. Bydd blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys moderneiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a datblygu cyd-gynhyrchu gyda darparwyr ar yr Ynys.

O ran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cyfanrwydd, bu pwyslais ar ddatblygu a hyfforddi’r gweithlu ac ar baratoi ar gyfer cyflwyno system TG genedlaethol (WCCIS) yn y Cyngor yn ystod y misoedd nesaf a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i weithio'n fwy effeithiol. Mae gwella ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth yn enwedig o ran gwrando ar farn defnyddwyr drwy gael sgwrs *Beth sy'n Bwysig* ar adeg yr asesiad cychwynnol a chan ystyried hefyd eu profiadau wrth lunio gwasanaethau a darpariaeth yn parhau i fod yn faes allweddol. Mae angen parhaus ar draws y gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu'r agenda ataliol – bydd cymryd camau ataliol yn gwella bywydau a lles unigolion a bydd hefyd yn helpu'r Awdurdod i reoli'r cynnydd yn y galw ac i ddefnyddio ei adnoddau yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth yr un modd ag adnewyddu’r ffocws ar ofalwyr a'u hanghenion.

Mae'r broses o baratoi adroddiad 2016/17 wedi bod yn wahanol iawn i un y blynyddoedd blaenorol ac mae wedi arwain at newid fformat ac arddull. Gwnaed hyn o ganlyniad i ganllawiau newydd a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sydd wedi cael eu defnyddio fel sail ar gyfer yr adroddiad Ynys Môn er mwyn amlinellu’r newidiadau a wnaed o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y cynnydd a wnaed yn ogystal â'r heriau sydd o'n blaenau a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried a oedd y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a nodwyd yn yr adroddiad yn briodol i'r amgylchedd heriol y mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu ynddo.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a'r cyd-destun y cynhaliwyd yr hunanasesiad ynddo gan godi’r pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y gwelliannau a gafodd eu cynllunio a'u gweithredu o ganlyniad i arolygiad AGGCC o Wasanaethau Plant ac fel y’u nodir yn yr Adroddiad Blynyddol. Nododd y Pwyllgor y byddai AGGCC yn ailymweld â'r Awdurdod i adolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed a gofynnodd am sicrwydd bod gan yr Awdurdod ddigon o amser i weithredu’r rhaglen o welliannau cyn iddi gael ei hailasesu gan AGGCC. Dywedodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod AGGCC yn bwriadu cynnal arolygiad dilyn i fyny o fewn 12 i 18 mis yn amodol ar ofynion y rhaglen reoleiddio yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, yr adnoddau sydd ar gael ac yn amodol hefyd ar i’r rheoleiddiwr gael ei fodloni gyda lefel y cynnydd ar Ynys Môn. Er bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio tuag at ail ymweliad ym mis Mawrth, 2018 yr ystyriaeth allweddol drwy gydol y rhaglen o welliannau yw sicrhau bod y gwelliannau a wneir yn gynaliadwy yn y tymor hir yn enwedig wrth i gyllidebau barhau i ostwng.
- Mewn cyd-destun o adnoddau cyfyngedig, nododd y Pwyllgor y bydd partneriaeth a chydweithio yn cymryd arnynt fwy o arwyddocâd. Felly, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sgôp ar gyfer rhannu gwasanaethau ymhellach. Dywedodd Cyfarwyddwr

DRAFT

Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol nifer o dimau ar draws gwasanaethau Oedolion a gwasanaethau Plant sy'n gweithio ar y cyd; tra bo’r rhain gyda BIPBC gan fwyaf mae yna enghreifftiau o weithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd (y tîm Gwasanaeth Cefnogi Teulu Integredig) a’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn sydd hefyd yn cynnwys sefydliadau partner eraill. Mae’r Tîm Dyletswydd Allan o Oriau ar gyfer Gwasanaethau Plant hefyd yn wasanaeth ar y cyd. Mae trefniadau cydweithio’r Awdurdod hefyd yn ymestyn y tu draw i'w gymdogion agosaf yn enwedig mewn perthynas â datblygu prosesau a pholisïau sydd, yn aml, yn rhai rhanbarthol. Wrth ymrwymo i drefniadau ar y cyd, rhaid i’r Awdurdod fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau statudol a bydd yn cadw ei gyfrifoldeb unigol am elfennau sylweddol yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, mae lle i ragor o gydweithio effeithiol e.e. o safbwynt maethu lle gall recriwtio gofalwyr maeth fod yn her.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor wedi ei fodloni mewn perthynas â'r canlynol -**

- **Bod yr Adroddiad Blynyddol wedi amlinellu sefyllfa bresennol y Cyngor o ran cyflawni ei Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Bod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'n gywir y blaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a’r Gwasanaethau Plant am y flwyddyn i ddod.**
- **Bod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor o ran ei Wasanaethau Cymdeithasol**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**5 STRATEGAETH TAI GWAG**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Tai yn ymgorffori’r Strategaeth Tai Gwag ar gyfer 2017-2022. Mae'r Strategaeth yn nodi'r cyflawniadau hyd yma yn ogystal â’r modd y bydd yr adnoddau yn cael eu targedu yn y dyfodol.

Canmolodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Strategaeth fel dogfen gadarnhaol a fyddai’n cynorthwyo'r Awdurdod i barhau gyda'r gwaith da a ddechreuwyd o ran dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a thrwy hynny helpu i fodloni'r angen am dai ar yr Ynys.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddogfen Strategaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sail ar gyfer cyfrifo bod 840 o gartrefi ar yr Ynys ar hyn o bryd sydd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy. Dywedodd y Swyddog Tai Gwag bod yr adran Treth Gyngor yn cadw data ar berchnogion tai gwag a pherchnogion ail gartrefi ac yn cyflwyno’r wybodaeth hon yn flynyddol i'r Swyddog Tai Gwag; defnyddir y wybodaeth hon i ddiweddaru'r gronfa ddata tai gwag. Mae'r gronfa ddata’n cael ei diweddaru ymhellach bob tri mis fel y daw tai gwag yn ôl i ddefnydd ac eraill yn dod yn wag. Un o’r amcanion strategol yw cynnal a gwella cywirdeb y data tai gwag. Gall y rhesymau pam fod tai yn dod yn wag amrywio o eiddo i eiddo.
- Nododd y Pwyllgor fod dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn ymdrech gydunol ac mae'n golygu cydweithio rhwng nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor, gan gynnwys y gwasanaeth gorfodi. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y Tîm Gorfodi gapasiti digonol i allu ymdopi â’r pwysau cynyddol ac amrywiol. Dywedodd y Swyddog Tai Gwag mae ei chyfrifoldeb hi yw cydlynu ymagwedd y Cyngor tuag at orfodaeth yn y maes tai

DRAFT

gwag ac mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith paratoi ar ffurf casglu tystiolaeth, drafftio adroddiadau ac amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd. Nid yw camau gorfodaeth fodd bynnag yn ateb cyflym ac mae'n rhywbeth a wneir pan fydd pob opsiwn arall wedi methu â chynhyrchu canlyniad boddhaol. Rhaid rhoi amser i berchenogion tai sydd wedi derbyn rhybuddion i ymateb ac i fynd i'r afael â'r mater.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y broses a ddilynir wrth geisio dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Dywedodd y Swyddog Tai Gwag y bydd Swyddogion bob amser yn ceisio gweithio gyda pherchnogion tai gwag yn y lle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyngor, cymorth ac opsiynau a ddyluniwyd i helpu perchnogion tai gwag fel yr amlinellir yn y pecyn cymorth a ddisgrifir yn adran 6 yr adroddiad. Lle mae trafodaethau wedi methu, a pherchnogion eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn gwrthod neu'n methu â dychwelyd eu heiddo yn ôl i ddefnydd, gellir cymryd mesurau cadarnach i fynd ar drywydd hyn. Pan fydd angen cymryd camau o'r fath, bydd y Cyngor yn glynu wrth ei egwyddorion gorfodi sy'n golygu gorfodaeth deg a chyson.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch effaith yr orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig ar anghenion tai; argaeledd tai ac ar y broblem tai gwag. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y mater yn cael ei ystyried ac mai un o'r materion niferus a'r manteision posibl sy'n cael sylw mewn trafodaethau parhaus gyda Horizon mewn perthynas â datblygiad Wylfa Newydd yw'r posibilrwydd o ddod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Holodd y Pwyllgor a fyddai'n bosib ymestyn y strategaeth i gynnwys capeli nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach oherwydd bod potensial i'w haddasu'n anheddau preswyl e.e. fflatiau. Dywedodd y Swyddog Tai Gwag bod nifer o'r capeli'n adeiladau rhestredig a'i bod ar ddeall y gall o bosib fod yn anos dan y CDLl ar y Cyd newydd i gael caniatâd ar gyfer addasu capeli rhestredig i ddibenion preswyl.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor gefnogi'r Strategaeth Tai Gwag ar gyfer 2017-2022 ac argymell strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn ei mabwysiadu.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

## 6 AELODAETH PANELAU A BYRDDAU

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro yn gofyn am enwebu Aelodau Sgriwtini i wasanaethu ar banelau a byrddau. Roedd yr adroddiad yn nodi'r panelau, y byrddau rhaglen gorfforaethol a'r byrddau rhaglen gwasanaeth yr oedd angen cynrychiolwyr ar eu cyfer, eu swyddogaeth a'u trefniadau adrodd.

**Penderfynwyd -**

- **Enwebu'r canlynol i wasanaethu ar y panelau a'r byrddau a restrwyd -**

**Panel Gwella Gwasanaethau Plant (1 Aelod) - Y Cynghorydd Richard Griffiths**

**Panel Sgriwtini Cyllid (2 Aelod) - Y Cynghorwyr Aled Morris Jones a Dylan Rees**

**Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion (4 Aelod) - Y Cynghorwyr J. Arwel Roberts ac Alun Roberts *(enwebiad y 2 Aelod arall i'w ohirio tan y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhelir ar 11 Gorffennaf er mwyn caniatáu i'r Aelodau hynny nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod hwn i fynegi diddordeb)***

**Panel Rhiant Corfforaethol (1 Aelod) - Y Cynghorydd Richard Griffiths**

**Bwrdd Trawsnewid Llywodraethiant a Phrosesau Busnes (1 Aelod) - y Cynghorydd Aled Morris Jones gyda'r Cynghorydd Dylan Rees yn gweithredu fel dirprwy**

**Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion (1 Aelod) - Y Cynghorydd Alun Roberts**

**Bwrdd Rhaglen Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Threftadaeth (1 Aelod) - Y Cynghorydd J. Arwel Roberts**

***(Enwebiadau ar gyfer y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a'r Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer i'w gwneud gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio).***

**Bwrdd Diogelu Corfforaethol (1 Aelod) - y Cynghorydd Aled Morris Jones gyda'r Cynghorydd Dylan Rees yn gweithredu fel dirprwy.**

- **Nodi'r trefniadau adrodd ar gyfer y paneli a'r byrddau a restrwyd fel y cânt eu hamlinellu yn adran 4 yr adroddiad.**

**7 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro yn ymgorffori Blaen Raglen Waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2017/18

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro bod y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys rhestr hir o eitemau posibl a gyflwynwyd yn wreiddiol gan y Cyngor blaenorol. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yn awr i sicrhau bod y rhaglenni gwaith ar gyfer y ddau bwyllgor sgriwtini wedi'u halinio'n glir. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini. Yr amcan yw lleihau nifer yr eitemau a fydd yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor ganolbwyntio yn fanylach ac yn fwy effeithiol ar faterion allweddol. Mae'r Rhaglen Waith fel y'i cyflwynir yn cynrychioli'r drafft presennol a bydd yn cael ei hadolygu'n barhaus.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Flaenraglen Waith fel amlinelliad drafft cychwynnol o raglen fusnes y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro i adolygu'r rhaglen waith mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan gyfeirio at raglenni gwaith perthnasol y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.**

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT